# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU - YSGOLION

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD IAU, 31 AWST 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| L S Gibbard | F M Gordon | L James |
| L R Jones | L J Tyler-Lloyd | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Swyddog(ion)**
Michelle Roberts Scrutiny Officer

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S J Gallagher, S M Jones a/ac S Pritchard
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

1 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

S J Gallagher, D W Helliwell.

2 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Heb ei ddatgan

3 **LLYTHYRAU'R CYNULLYDD AC YMATEBION CYSYLLTIEDIG GAN Y CABINET**

Codwyd mater cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig gan y Cyng. Lyndon Jones a oedd yn pryderu bod cyllid i'r gwasanaeth yn cael ei gytuno o flwyddyn i flwyddyn ac yn aml roedd penderfyniadau cyllidol yn cael eu gwneud yn hwyr yn y flwyddyn ariannol sy'n gallu achosi problemau o ran parhad darpariaeth y gwasanaeth. Caiff cwestiwn e-bost ei anfon at y Prif Swyddog Addysg a chaiff yr ymateb ei ledaenu.

4 **CYFLWYNIAD AR LAIS Y DISGYBL YN ABERTAWE**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r panel ar Lais y Disgybl yn Abertawe gan y Cydlynwyr Hawliau Plant. Roedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Nodau llais y disgybl
- Amlder cyfarfodydd, presenoldeb, cyswllt a chyrhaeddiad
- Disgwyliadau ysgolion
- Partneriaid
- Gweithgareddau/pynciau yr ymdrinnir â hwy a fformat y sesiynau
- Dadansoddi sesiynau, canlyniadau a chamau gweithredu
- Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig
- Cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf

Gofynnodd cynghorwyr gwestiynau a thrafodwyd y prif faterion, gan godi'r pwyntiau canlynol:

- Pam nad oedd disgyblion oedran cynradd o dan 10 oed wedi'u cynnwys. Clywodd y panel y byddai hyn yn ddymunol ond nad oedd digon o le ar hyn o bryd ar gyfer mwy na'r nifer presennol o fforymau, ond hoffai ei estyn ymhellach. Mae cynrychiolwyr Blwyddyn 6 o ysgolion cynradd yno i gynrychioli'r ysgol gyfan.
- Roedd yn ddiddorol i'r panel glywed y cynhelir 6 fforwm llais y disgybl yn ystod y flwyddyn. Caiff y rhain eu cynnal mewn ysgolion uwchradd y tu allan i oriau ysgol. Gofynnodd y panel iddynt gael eu hysbysu am ddyddiadau'r gweithgareddau a byddant yn ystyried anfon cynrychiolwyr o'r Tîm Craffu. Cytunodd KS i ledaenu dyddiadau a gweithgareddau perthnasol.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo fforymau i ysgolion a disgyblion. Caiff Twitter a Facebook eu defnyddio ond y dull mwyaf effeithiol yw defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a chysylltiadau sefydledig mewn ysgolion, ymhlith disgyblion a staff addysgu.
- Daw'r contract gydag UNICEF i ben ar ddiwedd mis Hydref. Mae pob ysgol ond pedair yn cyfranogi, sef 95% o ysgolion.
- Cytunwyd ei bod yn bwysig iawn i roi adborth i ddisgyblon ac ysgolion sy'n cyfranogi, yn benodol i roi gwybod iddynt am y gwahaniaeth sydd wedi cael ei wneud. Mae HWB yn ddull da ar gyfer hyn.
- Gofynnwyd i'r panel a oedd gan bob llywodraethwr ysgol fynediad i HWB ac a oedd pob ysgol yn galluogi hyn i'w llywodraethwyr. Caiff y cwestiwn hwn ei anfon at y Prif Swyddog Addysg a hysbyswyd yr aelodau am yr ymateb trwy e-bost.
- Gofynnwyd i'r panel sut rydym yn sicrhau bod ysgolion yn annog amrywiaeth eang o ddisgyblion i gymryd rhan yn y broses ac mae'r cyfle i gymryd rhan trwy fod yn gynrychiolydd yn agored i bob disgybl, beth bynnag y bo ei amgylchiadau. Cyfrifoldeb pob ysgol yw cyflwyno dau ddisgybl. Roedd y panel am gael gwybod am sut cânt eu dewis ac maent yn bwriadu ymchwilio ychydig ymhellach i hyn.
- Gofynnodd y Cynullydd sut gallai craffu helpu? Rôl llywodraethwyr ysgolion yw gofyn cwestiynau ac annog cyfranogiad mewn gweithgareddau hawliau plant a fforwm llais y disgybl, ystyried sut mae ysgolion yn cyfranogi mewn gweithgareddau a sut maent yn dewis cynrychiolwyr ar gyfer y fforwm.

Camau gweithredu a ddeilliodd o'r sesiwn hon:

- Sut gallen ni sicrhau mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc yng ngwaith y panel ac, yn ehangach, yn y broses graffu? (Panel i ystyried)

- Darganfod mwy am allu'r Tîm Hawliau Plant a'r cyllid ar ei gyfer nawr bydd y contract gyda UNICEF yn dod i ben ym mis Hydref. A fydd hyn yn effeithio ar adnoddau a beth yw'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol? (Cwestiwn i'w anfon at y Prif Swyddog Addysg)
- Ystyried sut mae ysgolion yn cyfranogi mewn gweithgareddau hawliau plant a Fforwm Llais y Disgybl, gan gynnwys sut mae cynrychiolwyr yn cael eu dewis.
- Gofynnwyd i'r panel a oedd gan bob llywodraethwr ysgol fynediad i HWB ac a oedd pob ysgol yn galluogi hyn i'w llywodraethwyr. Caiff y cwestiwn hwn ei anfon at y Prif Swyddog Addysg a hysbyswyd yr aelodau am yr ymateb trwy e-bost.

## 5 RÔL Y PANEL CRAFFU PERFFORMIAD YSGOLION

Adolygodd y panel yr adroddiad am rôl y Panel Perfformiad Craffu Ysgolion a chytunodd ar y canlynol:

- Y rhaglen waith ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig
- Datblygu strategaethau holi cyn sesiynau craffu allweddol
- Y gyfres o gwestiynau allweddol ar gyfer sesiynau craffu ysgolion
- Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio trwy rag-gyfarfodydd, yn ôl yr angen. Rhoi crynodeb byr ar ddiwedd pob cyfarfod i gytuno ar gamau gweithredu a'r hyn yr hoffent ei ddweud wrth yr aelod cabinet am y sesiwn.

Nododd y panel y cylch gorchwyl a rôl y cynullydd craffu a geir yn yr atodiadau.

## 6 EITEM ER GWYBODAETH

Nododd y panel yr wybodaeth gefndir am ysgolion.

- Crynodeb wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar o arolygiadau Estyn (bydd hwn ar bob agenda)
- Gwybodaeth ddefnyddiol arall (caiff gwybodaeth gefndir ddefnyddiol berthnasol i'w darllen ei chynnwys ar agendâu neu ei e-bostio i'r panel)